CYNGOR CYMUNED LLANDDYFNAN

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FAWRTH

15 Ebrill 2025, Trwy Zoom am 7:00 y.h.

YN BRESENNOL: Cyng W Williams, S Jones, R Hughes, D ap Rhobert, G D Williams, M Jones, E Williams, D Rees (Cyngor Sir), G Owen (Clerc)	
YMDDIHEURIADAU: Cyng C McGregor, A Wyn, A Williams	
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng S Jones. Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod.
2	**DATGAN DIDDORDEB** – Dim
3	**DERBYN COFNODION** Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 18.03.25. Fe'u derbyniwyd fel rhai cywir a chyflawn.
4	**MATERION YN CODI O'R COFNODION**
4.1	B5110 40myh - Mae'r Cyngor Sir yn aros am ganllawiau newydd gan Lywodraeth Cymru ar ardaloedd 30/40mya.
4.2	**Llwybrau Cyhoeddus** Talwrn - Dywedodd y Cynghorydd W Williams fod y llwybrau wedi cael eu gwneud.
4.3	**Penbonc/Neuadd Talwrn** - Dywedodd y Cynghorydd W Williams fod Clerc Pwyllgor y Neuadd wedi gofyn am gyfarfod gyda'r Cyngor Sir.
4.4	**Tro yn Llangwyllog** - Mae'r Clerc wedi gofyn am arwyddion ychwanegol.
4.5	**Croesffordd Maenaddwyn** - Mae'r Clerc yn aros am ddrych newydd ym Maenaddwyn ac i'r drych arall gael ei osod yn iawn.
4.6	**Sgwar Talwrn (damweiniau)** - Mae'r Clerc yn aros am gynigion y Cyngor Sir
4.7	**Coeden Mynwent Llanfihangel Tre'r Beirdd** - Mae dyfynbris o £990.00 wedi dod i law am gael gwared â'r goeden. Gofynnwyd i'r Clerc gael dyfynbris arall.
4.8	**8 Maes y Coed, Talwrn** - Mae'r Clerc yn aros am ymateb gan y Cyngor Sir
4.9	**Tai Lon Newydd -** Mae'r Clerc yn aros am ymateb gan y Cyngor Sir
4.10	**Bryn Brochan** – mewn llaw
4.11	**Golau fflachio -** Mae'r Clerc yn aros i glywed gan y Cyngor Sir a ydynt wedi gallu testio yr arwydd?
	Llofnod……..Cadeirydd 20.05.25

4.12	**Ildio Talwrn -** Mae'r Clerc yn aros am ymateb gan y Cyngor Sir ynglŷn â chyfarfod safle.
4.13	**Gor-yrru** - bydd hyn yn cael ei drafod yn y cyfarfod safle gweler4.12
4.14	**Rwbel gyferbyn a'r Hen Siop** - Dywedodd y Cynghorydd R Hughes fod llawer wedi cael ei symud. Mae rhywfaint yn dal i aros i gael ei symud.
5	**GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON**
	Cynllunio
5.1	**FPL/2025/91** Cais llawn ar gyfer lleoli pod gardd I'w ddefnyddio fel busnes harddwch yn Llys yr Efail, Talwrn – dim sylwadau
	Cwynion a Llywodraethiant
5.2	**8 Maes y Coed, Talwrn** - Llythyr gan gyfreithiwr yn y Cyngor Sir yn cadarnhau bod y mater yn cael ei ymchwilio.
	Priffyrdd
5.3	Cau Ffordd dros dro – B5109 Pentraeth – gwybodaeth yn unig
5.4	Damwain (ger y capel) Llangwyllog - Cais gan y Cyngor Sir am ragor o wybodaeth. Mae'r Clerc wedi cyfeirio'r cais at y Cynghorydd A Wyn.
6	**GOHEBIAETH YCHWANEGOL**
6.1	Bethan Owen (Eisteddfod Talwrn) - cais am gyfraniad ariannol. Cytunwyd i wneud taliad o £750 - cynigiwyd gan y Cynghorydd W Williams ac eiliwyd gan y Cynghorydd E Williams
6.2	Penmynydd Tree Services – gweler 4.7
7	**MATERION ERAILL**
	Dim
8	**MATERION ARIANNOL**
	Cytunwyd i dalu:
8.1	Aelodaeth Unllais Cymru £212.00
9	**MATERION AR GYFER Y RHAGLEN NESAF**
9.1	Drych Lon Cae Cwta
9.2	Torri gwair cae chwarae
	Llofnod…….Cadeirydd 20.05.25